# Welsh Transcript

Rydyn ni'n caru adar ac yn caru bywyd gwyllt, ac rydyn ni’n angerddol y dylai pawb allu mwynhau byd natur a’i fanteision. Ond rydyn ni hefyd yn gwybod bod yna rwystrau sy’n atal llawer o bobl rhag gwneud hynny.

Dyna pam rydym ni'n mynd ati i chwalu’r rhwystrau hyn drwy greu ffyrdd newydd i gael fwy o bobl i fynd allan i’r awyr agored a mwynhau adar, ac i fod yn rhan o’n cymuned wych o staff, gwirfoddolwyr, aelodau a chefnogwyr. Dyma beth mae cynhwysiant yn ei olygu i ni.

Mi fydd cymuned fwy cynhwysol yn ein helpu i sicrhau dyfodol gwell i adar a byd natur. Mae ymgysylltu â gwahanol safbwyntiau, sgiliau, profiadau a syniadau creadigol yn cynyddu ein siawns o lwyddo yn ein nod. Felly, mae cynhwysiant o fudd i bobl ac adar.

Byddwn yn parhau i gefnogi ein cymuned a chroesawu pobl newydd drwy:

- Datblygu dealltwriaeth ein staff a’n hymddiriedolwyr am bwysigrwydd cynhwysiant
- Sicrhau bod y cyfleoedd rydym yn eu creu yn groesawgar i bawb
- Chwalu rhwystrau ac ymestyn allan i'r rhai nad ydynt yn cael llais digonol ar hyn o bryd gan ein sector
- Adeiladu partneriaethau newydd a chyffrous
- Dathlu ein cymuned o staff, gwirfoddolwyr, aelodau a chefnogwyr.

Rydym yn cymryd camau nawr, fel y byddwn, erbyn 2030, yn cyrraedd ein nod o fod yn gymuned fwy amrywiol a chynhwysol lle mae pawb yn cael eu croesawu, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi i gyfrannu at ein cenhadaeth: cyflawni'r effaith fwyaf positif i adar ac i bobl. A wnewch chi ein helpu i gyrraedd ein nod?

Translated by Gethin Jenkins-Jones